# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **07 Mai 05**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Philip Downing | Adran Etholiadol: | **Pontarddulais** |
|---|---|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Cynhaliwyd dwy gymhorthfa cyngor y mis rhwng 5pm a 7pm yng Nghanolfan y Bont. Euthum i'r cyfarfodydd PACT lleol yn rheolaidd ac ymdrin â chwynion ac ymholiadau a gododd. Fel aelod o Gyngor Tref Pontarddulais a chyn-Faer, euthum i'r cyfarfodydd misol yn rheolaidd. Mae cofnodion y cyfarfodydd hyn i'w gweld ar wefan y cyngor yn www.pontarddulaistowncouncil.gov.uk. Roeddwn (ac ar yr adeg llunio rwyf o hyd) yn Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, ac un o'n blaenoriaethau oedd dod o hyd i gymorth ariannol i agor ein Canolfan Treftadaeth ar lawr uchaf y sefydliad. Mae'r cyngor tref yn darparu amrywiaeth o wasanaethau lleol, gan gynnwys: rheoli'r sefydliad i ddarparu lle ar gyfer sefydliadau cymunedol, lle swyddfa i'r heddlu, arddangosfeydd blodau yn y dref, ffilm i blant, cyfrannu i Orymdaith y Nadolig, yr addurniadau, y coed a'r pantomeim. Grantiau ariannol i achosion teilwng. Roeddwn yn Llywodraethwr yn Ysgol Gyfun Pontarddulais ac yn Gadeirydd y Pwyllgor Adnoddau; Hefyd, fi oedd Is-gadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Pontarddulais. Ymddiswyddais fel Trysorydd Clwb Pêl-droed Pontarddulais ar ôl bod yn y swydd am 40 mlynedd. Roeddwn yn falch iawn pan gynigiodd y clwb swydd Llywydd i mi a derbyniais. Mae'r clwb wedi mynd o nerth i nerth ym Mhontarddulais ac, erbyn hyn, mae ganddo adran iau gryf iawn gyda 10 tîm iau a 2 dîm hŷn.

**Adran 2:** Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | |
|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 11 o 12 cyfarfod | 92% |
| Pwyllgor Archwilio | 8 o 11 cyfarfod | 73% |
| Y cyngor | 15 o 15 cyfarfod | 100% |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 6 o 8 cyfarfod | 75% |
| Pwyllgor Trwyddedu | 14 o 15 cyfarfod | 93% |
| Is-bwyllgor Trwyddedu | 6 o 6 chyfarfod | 100% |
| Pwyllgor y Gronfa Bensiwn | 4 o 4 cyfarfod | 100% |
| Pwyllgor y Rhaglen Graffu | 13 o 16 cyfarfod | 81% |
| Pwyllgor Safonau | 5 o 8 cyfarfod | 63% |
| CYFFREDINOL | 82 o 95 cyfarfod | 86% |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd**

Fi oedd Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu, sy'n edrych ar yr holl geisiadau trwyddedu yn Ninas a Sir Abertawe. Roeddwn hefyd yn Is-gadeirydd Panel Cronfa Bensiwn y cyngor. Un o'r cyrff allanol rwyf wedi bod arno yw'r Tribiwnlys Prisio, a oedd yn edrych ar apeliadau gan fusnesau ac unigolion sy'n cwyno am eu cyfraddau. Roeddwn hefyd yn gyfranddaliwr ar Gwmni Gwaredu Gwastraff Abertawe. Lluniais gylchlythyr i'w ddosbarthu i'n hetholwyr. Defnyddiais y cylchlythyrau hyn i roi gwybod â pha strydoedd y byddem yn ymweld ar ddiwrnod penodol. Cefais nifer sylweddol o alwadau ffôn a phobl yn galw i'm tŷ'n ceisio cyngor a chymorth ar amrywiaeth o faterion. Gyda 281 o dai'r cyngor ym Mhontarddulais, roedd cryn nifer o ymholiadau'n ymwneud â'r rhain. Rwyf bob amser yn barod i wrando ar eu pryderon a chynnig cyngor a chefnogaeth briodol. Roeddwn yn cerdded ac yn gyrru o gwmpas y ward yn rheolaidd, ac yn rhoi gwybod am ddiffygion

megis tyllau yn yr heol, goleuadau stryd nad ydynt yn gweithio mewn ardaloedd preswyl, arwyddion heol wedi'u difrodi a thipio anghyfreithlon.

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Yn dilyn sylwadau gan etholwyr, roedd angen gwelliannau heol a phalmant. Darperais gefnogaeth ar ôl sylwadau gan etholwyr trwy'r broses ddeiseb a rhoddais gefnogaeth barhaol a chyd-drafod dros ddymuniadau poblogaeth Pontarddulais lle roedd tystiolaeth o bryder, potensial ar gyfer datblygu gwasanaethau a ffordd well o fyw ac angen i gefnogi datblygiadau posibl er lles y gymuned. Gweithiais i ddatblygu ymagweddau partneriaeth cynaliadwy ar draws grwpiau cymunedol (Cyfeillion Parc Coed Bach, a Phartneriaeth Pontarddulais) a'r cyngor i wella draenio mewn ail goed, offer ailgylchu angenrheidiol megis biniau gwastraff a gwelliannau cyfalaf megis y cyrtiau tenis. Gweithiais gyda'r cyngor i nodi a chael mynediad i arian ychwanegol i gynyddu'r adnoddau sydd ar gael i wella'r dref. Rwyf wedi cyfarfod â swyddogion i wella'n stoc tai (Heol-y-Maes) i ddod â nhw at Safon Ansawdd Tai Cymru. Rwyf hefyd wedi cyfarfod â Hydar yn ogystal â swyddogion i drafod cam 2 yr astudiaeth cludiant yn ogystal â'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) gan y bydd yn effeithio ar Bontarddulais.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Euthum i'r sesiynau hyfforddi canlynol:
27/11/2013 Deall cyllideb y cyngor
14/10/2013 Cyn-benderfynu
Hyfforddiant i Lywodraethwyr:
14/01/2014 Cadeirydd Llywodraethwyr Newydd
15/01/2014 Cyllid/Cyllidebau
12/02/2014 Amddiffyn Plant
Ym mis Medi 2013, euthum i seminar dau ddiwrnod ar ran y Panel Pensiwn, fel rhan o'm hyfforddiant parhaol.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Euthum i gyfarfodydd Partneriaeth Adnewyddu Pontarddulais yn rheolaidd yr wyf yn aelod ohoni. Mae'r bartneriaeth yn gweithio gydag etholwyr Pontarddulais i asesu anghenion y gymuned, cael mynediad i grantiau, cefnogi cyflwyno datblygiadau a sicrhau cynaladwyedd y gwaith ar y fynwent a'r hawliau tramwy ar y gors, Gorsaf Drenau Ardal Gemau Aml-ddefnydd (MUGA), Safle Tai Bryniago, man parcio Teilo Sant, cyrtiau tenis ym Mharc Coedbach, cyflwyno'r cynllun chwarae, cynnal a chadw a datblygiad parhaus Canolfan y Bont, taflen gymunedol Bwletin y Bont.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog sylfaenol - £13,175 y flwyddyn.
Gellir gweld ffurflenni hawlio teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 28.05.14 |